GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.

DILYNWCH Y COD TEITHIO.

ADNODDAU DYSGU'R COD TEITHIO, CYFNOD ALLWEDDOL 2

Adnoddau Dysgu'r Cod Teithio, Cyfnod Allweddol 2

Gallai'r cynlluniau gwers gyfrannu at gyfres ehangach o wersi yng Nghyfnod Allweddol 2 gan edrych ar ddiogelwch personol, hawliau a chyfrifoldebau. Mae cysylltiadau gyda deilliannau dysgu penodol o'r fframwaith ABCh ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru'n cynnwys:

Sgiliau

Datblygu meddwl

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- identify links between cause and effect
- ffurfio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus

Datblygu cyfathrebu

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- wrando'n astud, gofyn cwestiynau ac ymateb i bobl eraill
- mynegi eu safbwyntiau a'u syniadau'n hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol
- cyfrannu at drafodaethau dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon.

Gweithio gydag eraill

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- gydweithio i ddatrys problemau
- ymwrthod â phwysau ac ymddygiad diangen gan gyfoedion
- uniaethu â phrofiadau a theimladau pobl eraill
- rheoli gwahanol emosiynau a datblygu strategaethau ar gyfer datrys gwrthdaro a delio â bwlio.

ADNODDAU DYSGU'R COD TEITHIO, CYFNOD ALLWEDDOL 2

Ystod

Dinasyddiaeth weithgar

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddatblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill
- gwerthfawrogi teulu a ffrindiau fel ffynhonnell o gymorth i'w gilydd

a deall:

- eu hawliau, e.e. *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*, a'u cyfrifoldebau
- sefyllfaoedd sy'n esgor ar wrthdaro a natur bwlio.

Iechyd a lles emosiynol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach
- teimlo'n bositif amdanynt eu hunain a bod yn sensitif i deimladau pobl eraill

a deall:

- pwysigrwydd diogelwch personol
- beth y dylid ei wneud neu at bwy y dylid mynd pan na fyddant yn teimlo'n ddiogel.

Datblygiad moesol ac ysbrydol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- fod yn onest ac yn deg a pharchu rheolau, y gyfraith ac awdurdod

a deall:

- bod gweithredoedd personol yn esgor ar ganlyniadau.